Ysgol Waunfawr Llythyr Rhif 15 11/3/17

Er gwybodaeth :

1. Hoffem longyfarch y plant a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd ddydd Sadwrn diwethaf ym Mrynrefail, da iawn chi, yn arbennig Brython, Osian a'r Parti Llefaru a fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor ddiwedd y mis. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.
2. Cafwyd wythnos wych yn dathlu 'Cymru Cwl' yr wythnos ddiwethaf. Cafwyd amrywiol o weithgareddau ac yn ôl ymatebion y plant roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn yr hyn a drefnwyd ar eu cyfer. Diolch arbennig i Bethane Williams, actorion Rownd a Rownd , a Nia Griffith am eu cyfraniadau. Diolch hefyd i'r rheini a ymunodd gyda ni yn ein Gorymdaith o gwmpas y pentref.
3. Croesawn Mrs Lisa Williams yn fyfyrwraig o Brifysgol Bangor atom am gyfnod o dri mis. Bydd yn addysgu ym mlwyddyn 1 a 2 am gyfnod o 9 wythnos ac yna yn arsylwi yn nosbarthiadau CA2.
4. Dyma ddigwyddiadau yr wythnos nesaf ;
    - Gwasanaeth adran Iau dan ofal Mrs Susan Williams bnawn Mawrth 14eg
    - Bydd blwyddyn 6 yn derbyn gwersi seiclo ddydd Mawrth a ddydd Mercher yma. Bydd angen helmed diogelwch ar y plant.
    - Cyngerdd Band Rhanbarth Eryri – Theatr Seilio nos Fercher yma am 6.00 y.h
    - Bydd blwyddyn 2 a blwyddyn 5 yn derbyn cyflwyniad gan y Gwasanaeth Tân ddydd Iau.
    - Bydd noson ffilm nos Iau i aelodau'r Urdd.
    - Cyfarfod Llywodraethwyr nos Iau am 5.30 y.h bydd cyflwyniad gan y Cyngor Ysgol
5. Cynhelir nosweithiau rhieni Dydd Llun Ebrill y 3ydd – 5ed. Danfonnir yr amserlen i'ch sylw maes o law. Gan fod cymaint o rieni wedi newid amseroedd ym mis Hydref gofynnwn yn garedig eleni os na allwch chwi gadw at yr apwyntiad a ddanfonwyd a allwch chwi os gwelwch yn dda gyfnewid amser gyda rhiant arall ac yna hysbysu'r ysgol o'r trefniant newydd. Mae hyn yn hanfodol fel bod yr athrawon yn gallu cael llyfrau'r plant wrth law ar y noson. Diolch i chwi rydym yn gwerthfawrogi.

Diolch am eich cyd- weithrediad.

Yn gywir
Gwenan Williams

For your information:

1. Congratulations to all who performed at the Eisteddfod yr Urdd at Brynrefail last Saturday, congratulations to Brython, Osian and the recitation party who will be competing at County level of the Eisteddfod yr Urdd at the end of the month. Thanks to all parents for supporting the children.
2. The celebrations for Cymru Cwl week were a great success – a variety of activities were arranged for the week, and judging by the feedback from the children, everyone thoroughly enjoyed the activities. A special thanks to Bethane Williams, Nia Griffith and actors from Rownd and Rownd for their contributions. Thanks also to the parents who joined our St David's Day procession around the village.
3. We extend a warm welcome to Mrs Lisa Williams a student from Bangor University who will be teaching years 1 and 2 for a period of nine weeks and observing classes in the junior department.
4. These are this week's events;
    - Mrs Susan Williams will be giving the junior department an assembly next Tuesday.
    - Yr 6 will be having cycling lessons on Tuesday and Wednesday. All children must wear a safety helmet.
    - Eryri School's Band Concert at Theatre Seilo Wednesday evening at 6.00 o'clock.
    - Yrs 2 and 5 will have a presentation given by the Fire Service next Thursday.
    - Urdd members will have a film evening on Thursday.
5. The School 's Council will be giving a presentation at the Governors Meeting this Thursday evening at 5.30pm.
6. Parent's evenings will take place from Monday April the 3rd – 5th. We will distribute the timetable shortly. As so many parents changed their times for the last parent's evening, if you are given a time which you cannot attend, we ask kindly that you make arrangements to swop with other parents, and advise the school of any amendments. It is essential that you do let us know of changes that you have arranged so that the teachers have the correct children's books and details ready for the evening. Thank you.

    Thank you for your co-operation.

    Yours sincerely
    Gwenan Williams